

**CYNLLUN GWERS CALCH**

<b>Pwnc</b>	<b>Uned</b>	<b>Gwers</b>	<b>Cyfnod Allweddol</b>
<b>Hanes</b>	<b>2</b>	<b>Creigiau, ffyrdd a therfysgoedd</b>	<b>CA2/3</b>
<b>Amcanion dysgu:</b> Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu: <ul style="list-style-type: none"><li>• Bydd rhai disgyblion yn deall pam roedd pobl yng Nghymru mor ddibynadwy ar ffyrdd.</li><li>• Bydd mwyafrif y disgyblion yn deall pam y digwyddodd Terfysgoedd Beca rhwng 1839-43.</li><li>• Bydd pob disgybl yn deall anobaith y ffermwyr oherwydd y tollau uchel ar y ffyrdd.</li></ul>			
<b>Geiriau allweddol:</b> Terfysgoedd Beca, terfysgu, calch, tollau, tollbyrth			

<p><b>Cyflwyniad:</b> Ar gyfer y disgyblion hŷn, gellid dechrau gyda llun o derfysg yn Llundain, gan ofyn y cwestiwn, ‘Oedd hi’n bosibl cyfiawnhau’r terfysg?’. Wedyn, gellid gofyn i’r disgyblion, ‘Ydy hi’n bosibl cyfiawnhau terfysg unrhyw bryd?’.</p> <p>Ar gyfer y disgyblion iau, gellid rhoi losin/da-da i bob disgybl (ceiniog siocled wedi’i lapio fyddai orau), nad ydyn nhw i’w bwyta, wrth iddyn nhw ddod i mewn i’r dosbarth. Fel cyflwyniad, bydd yr athro’n codi tollau annheg ar y disgyblion am wneud rhai pethau, e.e. gofyn am fynd i’r toiled, anghofio llyfr neu fenthyg pensil.</p>	<p><b>Amseru</b> (Yn seiliedig ar 60 mun)</p> <p><b>5-10 mun</b></p> <p><b>5-10 mun</b></p>
<p><b>Prif ran:</b> Cyflwyniad PowerPoint i derfysgoedd Beca a pham roedd y terfysgwyr wedi ymddwyn fel y gwnaethon nhw. Ewch dros brif bwyntiau’r terfysgoedd. Wrth ystyried chwareli’r Mynydd Du, dangosir map i’r disgyblion o’r llwybrau dros y mynydd. Pam y cafodd cymaint o lwybrau eu creu? Dylai’r disgyblion ysgrifennu’r ateb yn eu llyfrau.</p> <p><b>Gweithgaredd un – Dadl ddosbarth</b> Dewiswch hanner y dosbarth i fod yn derfysgwyr Beca a rhowch daflen wybodaeth iddyn nhw am y terfysgoedd, sy’n egluro pam yr oedden nhw wedi ymddwyn fel y gwnaethon nhw. Bydd disgyblion eraill y dosbarth, a fydd yn heddlu, yn cael ochr arall y ddadl. Bydd angen i’r disgyblion gynnal dadl ddosbarth ar y terfysgoedd er mwyn penderfynu a oedd hi’n bosibl eu cyfiawnhau. Defnyddiwch y cwestiynau canlynol yn ystod y ddadl.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Oedd hi’n bosibl cyfiawnhau’r terfysgoedd?</li> <li>2. Pam y cafodd trais ei ddefnyddio a pham y cafodd eiddo ei ddifrodi?</li> <li>3. Pam nad ydy’r awdurdodau’n gwrandao ar y ffermwyr?</li> <li>4. Beth sy’n digwydd os na fydd ffermwyr yn gallu fforddio talu’r tollau?</li> <li>5. Pwy ydy Beca?</li> </ol> <p><b>Gweithgaredd dau</b> Gall y disgyblion (yn dibynnu ar ba ochr maen nhw wedi bod yn dadlau) naill ai ysgrifennu llythyr at yr heddlu gan ‘Ferched Beca’ yn rhoi manylion am y rhesymau dros y terfysgu a pham y byddwch yn parhau, neu gallan nhw gyfeirio at ‘ferched Beca’ mewn datganiad cyhoeddus, gan roi manylion am eu troseddau a sut y byddan nhw’n cael eu dwyn o flaen eu gwell. Bydd angen i’r disgyblion ateb y cwestiwn (pa ochr bynnag yr oedden nhw arni yn ystod y ddadl): Ai terfysgu oedd y peth cywir i’w wneud? (Disgyblion hŷn: Oedd hi’n bosibl cyfiawnhau terfysgoedd Beca?)</p> <p><b>Cwestiynau ychwanegol i’w gofyn</b> Oes yna dollffyrdd yn bodoli heddiw? Beth ydy manteision ac anfanteision tollffyrdd?</p>	<p><b>5-10 mun</b></p> <p><b>25 mun</b></p> <p><b>5-10 mun</b></p>
<p><b>Sesiwn lawn:</b> Gorffennwch trwy ddod i gasgliad am derfysgoedd Beca a’u heffaith ar yr ardal, e.e. mae’n bosibl gweld y tollbyrth hyd heddiw.</p>	<p><b>5-10 mun</b></p>

**Gwahaniaethu:**

Ar gyfer disgyblion llai galluog mae yna daflen geiriau allweddol i'w helpu gyda gweithgaredd dau.

**Asesu:**

Trwy gyfrwng trafodaeth ddosbarth, cwestiwn ac ateb a marcio'r gwaith llyfr.

**Adnoddau:**

PowerPoint, geiriau allweddol, taflenni gwybodaeth

**Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:**

**Llythrennedd** – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol*
- *Cyfrannu at drafodaeth grŵp*
- *Gwrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw*
- *Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol*
- *Coladu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol*
- *Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol*

**Rhifedd** – gellir cysylltu'r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau*

Darllen mapiau – cysylltiadau â Daearyddiaeth